



## Croeso: beginners' Welsh

### Daily routines

Here are two people describing what they've been doing:

Bore ddoe es i i ymarfer yn y gym.  
Prynhawn ddoe es i am dro lan y mynydd.  
Neithiwr (gw)nes i wylio'r teledu am awr neu ddwy.  
Nos Wener (gw)nes i chwarae tennis dan y golau.  
Bore Sul fe es i i wneud y siopa am yr wythnos.  
Ar fy ngwyliau diwethaf fe es i i Andalusía gyda (fy) ngwraig.  
Ar y penwythnos es i i weld ffrindiau yng nghanolbarth Lloegr.

Ddoe dihunes am tua saith o'r gloch. Es i i'r cawod ond neidies allan yn glou oherwydd roedd y dŵr yn oer.

Yn y gwaith wedyn ysgrifennais erthygl ar gyfer cylchgrawn.  
Neithiwr es i i dafarn yng nghanol Caerdydd gyda hen ffrind.  
Bore Sul diwethaf es i allan am wâc ar y gwlybtir (wetlands) yn y bae.  
Penwythnos diwethaf (gw)nes i aros gartref ... gwneud lot o waith smwddio yn y tŷ ar gyfer gwaith yr wythnos ar ôl hynny.  
Ar fy [ng]wyliau diwethaf es i gyda fy wejen i Barcelona yn Catalunya.

I hope you managed to glean some information here. There were quite a few colloquial words and phrases. Did you hear the second speaker saying he jumped out of the shower **yn glou**? This is common in south Wales for *quickly* and means the same as **yn gyflym**. He also used **am wâc** for a walk while the first speaker used **am dro**. The first speaker went on his holidays with his wife, but the second went with his **wejen** – a south Wales term for a girlfriend.

We asked Lynda and Gordon to say a little about what they did recently:

#### Lynda:

Ddoe es i i ddysgu dosbarth. Ar ôl hynny es i i'r dre i siopa ac wedyn es i i'r siop trin gwallt. Wedyn es i allan gyda Robert i weld ffrindiau i gael pryd o fwyd.

#### Gordon:

Y diwrnod o blaen aethon ni i Raeadr yn Sir Faesyfed. Aethon ni i siopa yn Rhaeadr ac ar ôl i ni fynd i siopa roedd rhaid i ni fynd i Aberystwyth.

**Lynda:**

Yn ddiweddar aethon ni i Sardinia ar wyliau ac ... nofion ni yn y môr, a bwyton ni ... bwyton ni ... bwyd Eidalaidd y rhan fwyaf o'r amser. Ac aethon ni ar y llong i Corsica.

**Gordon:**

Y mis diwethaf es i ar wyliau i Lundain. Es i gydag Antonia, fy ngwraig. Teithion ni ar y bws. Bwyton ni mewn gwesty yn Llundain a gwelon ni yr amgueddfa a'r llyfrgell yn Llundain. Mwynheuon ni yr amser a doedden ni ddim wedi bod yno o'r blaen ond dyn ni'n hapus i fynd y nôl ryw ddiwrnod.

There were a few things you probably weren't familiar with here:

**Yn ddiweddar** means *lately* or *recently*.

**Amgueddfa** is a *museum*.

**Ryw ddiwrnod** means *some day*.

Finally, listen to Judith and Martin talking about their last holiday and a few places they've visited over the years:

**Judith:**

Es i i Ffrainc ar fy ngwyliau diwetha. Es i gyda fy nheulu. Pan oeddwn ni yna, es i nofio yn y pwll nofio pob dydd, ac es i ma's i fwyta. Dw i wedi bod yn Nulyn dwywaith. Roeddwn i yna mis Hydref diwetha. Mae e'n lle diddorol iawn, ond roedd y tywydd yn ddiflas ofnadwy.

**Martin:**

Dw i wedi bod yn Nulyn. Ro'n i yn Nulyn rhyw bum mlynedd yn ôl yn gwyllo gêm rygbi rhwng yr Iwerddon a Cymru. Roedd hi'n ddrud ofnadwy yn Nulyn. Roedd y 'Guinness' yn costio llawer gormod.

Dw i wedi bod ym Mharis. Roeddwn i'n ymweld â fy merch oedd yn fyfyrwraig ym Mharis rhyw bedair blynedd yn ôl. Roedd Paris hefyd yn ofnadwy o ddrud, ond rwy'n credu tipyn yn bertach na Dilyn.

**Judith:**

Dw i wedi bod ym Mharis sawl gwaith. Roeddwn i yna mis Medi. Mae e'n lle pert iawn a rhamantus. Roedd y tywydd yn braf, roedd yr haul yn disgleirio ac roedd yn dwym bob dydd.